PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Athrofa y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

YR AROLWG BUSNES FFERM YNG NGHYMRU

Llyfryn Incwm Fferm Cymru

Canlyniadau 2014/15

CYNNWYS **Tudalen**

Rhagair 1

Trosolwg 2

Cyflwyniad 4

Diffiniad o Derminoleg a Nodiadau Eglurhaol 5

Data Fferm Gyfan
Ffermydd mynydd gwartheg a defaid 7
Ffermydd mynydd defaid 9
Ffermydd ucheldir gwartheg a defaid 11
Ffermydd llawr gwlad gwartheg a defaid 13
Ffermydd godro – ardaloedd llai ffafriol 15
Ffermydd godro – llawr gwlad 17

Data Elw Bras
Defaid mynydd 19
Defaid ucheldir 19
Defaid llawr gwlad 20
Buchod sugno llawr gwlad 20
Buchod sugno ucheldir 21
Buchod sugno mynydd 21
Buchod godro ardaloedd llai ffafriol 22
Buchod godro llawr gwlad 22

Data Costau Cynhyrchu
Costau cynhyrchu cig oen 23
Costau cynhyrchu llaeth 23
Costau cynhyrchu cig eidion: lloi sugno 24
Costau cynhyrchu cig eidion: pesgi 24

Anghenion Elw Fferm 25

Prifysgol
Aberystwyth
University

Llyfryn Incwm Fferm Cymru
Canlyniadau 2014/15

Arolwg Busnes Fferm

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
Prifysgol Aberystwyth
Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EE

Cyfarwyddwr

Tony O'Regan

Staff yr Uned

Nigel Chapman
Rowland Davies
Eileen Edwards
Brenda Jones
Dylan Jones
Eric Jones
Nick Reeves
Tegid Roberts
Huw Williams
Ian Williams

Ffôn: 01970 622253
E-bost: farmsurv@aber.ac.uk
http://www.aber.ac.uk/en/ibers/enterprise-kt/fbs/

Rhagair

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn ymchwilio incwm ffermydd Cymru er cyn yr Ail Ryfel Byd ac yn 2011/12 nodwyd 75 mlwyddiant yr Arolwg. Mae'r Arolwg, sy'n cael ei gydnabod fel yr un mwyaf awdurdodol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad incwm ffermydd, yn darparu gwybodaeth i wneuthurwyr polisi ar gyflwr economaidd y diwydiant ac yn darparu data cymharol gwerthfawr ar gyfer asesu perfformiad ffermydd unigol.

Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar yr Arolwg Busnes Fferm (ABFf) llawn sy'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd ar dros 550 o ffermydd Cymru a ddewiswyd ar hap. Bwriad y llyfryn yw darparu teclyn meincnodi sy'n hawdd ei ddefnyddio i ffermwyr ac mae'n cynnwys y wybodaeth ariannol a ffisegol ddiweddaraf am y prif fathau o ffermydd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn groes i rai agweddau o fethodoleg yr ABFf a'r ffordd o gyflwyno canlyniadau, er enghraifft, mae mewnbynnau tybiannol megis gwerth rhentu ar gyfer ffermydd ym meddiant y perchennog a llafur di-dâl wedi cael eu cymryd allan tra bo taliadau cyllid wedi cael eu cynnwys, er mwyn i'r ffigurau hyn gynrychioli costau gwirioneddol. Mae'r llyfryn hwn yn dangos llafur di-dâl i ddibenion cyfeirio yn unig ac hefyd mae ond yn cynnwys rhai mathau o ffermydd. Ar gyfer dadansoddiad cynhwysfawr ac ar gyfer ddadansoddi tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn ar incwm, cyfeiriwch at y canlyniadau llawn a gyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol 'Arolwg Busnes Ffermydd yng Nghymru: Canlyniadau Ystadegol ' (ar gael ar-lein).

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn gysylltiedig ag astudiaethau'r tir ers 1878, a'r ABFf yw ei chytundeb ymchwil hynaf. Priodol felly yw cydnabod yn ddiolchgar y llu o ffermwyr ledled Cymru sydd wedi darparu gwybodaeth fanwl; Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Arolwg presennol a staff yr Arolwg, ddoe a heddiw.

Tony O'Regan
Cyfarwyddwr yr Arolwg Busnes Fferm

Trosolwg

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn hwn yn cynnwys y blynyddoedd cyfrifo a ddaeth i ben rhwng 31 Rhagfyr 2014 a 31 Mawrth 2015 ac maent felly'n adlewyrchu'r amodau ffermio rhwng Ionawr 2014 a Mawrth 2015. Bwriad y trosolwg hwn yw darparu cyd-destun a chipolwg o'r cyfnod y mae'r canlyniadau'n ei gynrychioli.

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd gan ffermwyr stôr dda o borthiant o ansawdd da o'r cynhaeaf blaenorol. Ym misoedd cyntaf 2014 cafwyd tywydd stormus a gwlyb drwy Gymru, gan achosi difrod, llifogydd lleol, a mwy o achosion o lyngyr yr afu mewn anifeiliaid. Daeth tywydd gwell i'r ffermwr gyda'r gwanwyn, gydag amodau delfrydol, bron, ar gyfer hau a thyfu a barhaodd drwy'r haf, a oedd yn golygu bod modd troi anifeiliaid allan yn gynnar, dibynnu'n llai ar borthiant a brynwyd, a chadw digonedd o borthiant o ansawdd uchel yn y storfeydd.

Roedd hynt a helynt ffermio da byw yn 2014/15 yn amrywio, gyda'r rhod yn troi gyda'r flwyddyn. Roedd hi gyda'r blynyddoedd gorau ers talwm o ran wyna, gyda chyfraddau tyfu da a'r cyfraddau marw yn isel. Ond cymysg oedd y fasnach ŵyn, gyda phrisiau da iawn yn gynnar, cyn y cwymp sylweddol ganol yr haf, heb unrhyw gynnydd yn hwyr yn y tymor. Roedd y ffaith bod prisiau gwlân a hen ddefaid yn sefydlog wedi helpu â ffigurau elw ffermio defaid o'u cymharu â'r flwyddyn gynt. Cymysg hefyd oedd hynt cynhyrchwyr cig eidion wedi'u pesgi, gyda'r prisiau da ar ddechrau'r tymor yn syrthio'n gyflym tua'r haf ac wedyn yn cryfhau tuag at ddiwedd y flwyddyn. Roedd cynhyrchwr gwartheg stôr yn cael prisiau eithaf da drwy gydol y tymor.

Mae llawer o gynhyrchwyr llaeth yn cael un o'u cyfnodau mwyaf digalon ers cyn cof, gyda rhai cynhyrchwyr yn gorfod gadael y diwydiant, neu'n dewis ei adael. Mae'n ymddangos braidd yn ddideimlad adrodd bod prisiau llaeth wedi dal eu tir yn dda am hanner cyntaf y flwyddyn, er iddynt ostwng yn raddol tan y cwympiadau mwy wrth i'r flwyddyn dynnu i'w therfyn, ond digwyddodd hynny'n rhy hwyr i gael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau hyn. Roedd cynhyrchiant yn uwch, oherwydd yr amodau pori da ac roedd prisiau stoc da byw yn sefydlog, ond ni fu'r naill ffaith na'r llall yn ddigon i wrthsefyll pwysau diwedd y flwyddyn a ddaeth ynghyd o sawl elfen: prisiau gwael; prynwyr yn atal neu oedi taliadau; contractau anffafriol

neu ddiffyg contractau; materion ynghylch y diciâu a'r goblygiadau ariannol cysylltiedig; a hynny i gyd yn sgil buddsoddiadau sylweddol diweddar gan lawer o gynhyrchwyr.

Mae agweddau eraill perthnasol yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys: cyfradd gyfnewid lai ffafriol â'r ewro; taliadau llai o Gynllun y Taliad Sengl (CTS) oherwydd bod gwerth hawl y CTS wedi'i ostwng yn sylweddol; boicotiau ar fwydydd yr UE gan Rwsia ac economi Tsieina yn arafu; buddsoddiadau blaenorol mewn ynni adnewyddadwy yn dechrau talu; gostyngiadau ym mhrisiau tanwydd a gwrtaith yn helpu pob sector, ond heb fod yn ddigon i ddigolledi am y prisiau agrocemegol uchel a'r prisiau gwael am gnydau yn y sector âr (er bod costau porthiant yn llai i ffermwyr da byw); cyfradd y ffermwyr sy'n cefnu ar gynhyrchu organig a dychwelyd i ffermio confensiynol yn arafu; a chytundebau Glastir uwch yn dwyn ffrwyth.

Mae'r canlyniadau hyn yn amlygu gwahaniaethau sylweddol rhwng ffermydd sy'n perfformio ar lefel 'gyffredin' a rhai sy'n perfformio ymhlith y 'traean uchaf', ar draws ystod o fesurau effeithlonrwydd. Er enghraifft, roedd elw (£ fesul hectar effeithiol) y ffermydd defaid mynydd a oedd yn y traean uchaf o safbwynt perfformiad ddwywaith yn fwy na'r ffermydd cyffredin yn y sampl. Ar ffermydd llaeth gwnaeth cynhyrchwyr y traean uchaf elw net dros chwech gwaith yn fwy na'r traean isaf. Gwelwyd amrywiaeth gyffelyb ymhlith cynhyrchwyr cig gyda chynhyrchwyr cig oen yn amrywio, o gael 47c/kg i golli 56c/kg, a chynhyrchwyr cig eidion yn amrywio o 40c/kg i golli 99c/kg. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau hyn yn ystyried cost llafur y ffermwr, a gallai hepgor honno, o'i chamddefnyddio, gyflwyno darlun camarweiniol o economeg cynhyrchu. Mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yn y sector llaeth gan y gall y costau llafur a phensiynau yn unig ychwanegu tua 7-8c/l, gan wthio costau cynhyrchu'r traean uchaf i dros 27/l a'r rhai isaf yn agosach at 36c/l.

Yn ogystal â hyn, dylid rhoi sylw penodol i'r cyfraniad a wneir gan y CTS, cymorthdaliadau eraill ac incwm arallgyfeirio fel bod modd i'r darllenydd weld y cyfraniad y mae mentrau 'ffermio' yn ei wneud i'r elw net. Er enghraifft, cyfrannodd y tair ffynhonnell hyn tua 38% o'r allbwn a 180% o'r elw, ar gyfartaledd, ar gyfer ffermydd defaid mynydd.

Cyflwyniad

Mae proffidioldeb yn ganolog i unrhyw fusnes fferm, er y bydd gan ffermwyr lawer o amcanion busnes a phersonol eraill. Gyda'r newidiadau i Gynllun y Taliad Sengl a'r heriau economaidd parhaol, dylai pob ffermwr wybod am eu costau cynhyrchu a sut maent yn cymharu â chostau cynhyrchwyr eraill. Mae'r amrywiaeth o ran perfformiad ac elw a welir yn y llyfryn hwn yn dangos ehangder y gwellianau posib a thrwy gymharu neu 'feincnodi' perfformiad fferm, gellir adnabod cryfderau a gwendidau y busnes.

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn wedi eu gosod allan fel a ganlyn gan ddangos data ar gyfer y busnesau yn gyfartalog ar trean uchaf o ran perfformiad:

1. Data Fferm Gyfan (Tudalennau 7 – 18)
Cyflwynir gyfrifon elw a cholled a mantolen gryno ar gyfer chwe gwahanol fath o fferm. Dengys y canlyniadau gyfartaledd elw neu golled y ffermydd hyn ynghyd â'r cyfartaledd fesul hectar. Dengys hefyd faint a graddfa stocio'r ffermydd ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol, perthnasol eraill.

2. Data Elw Bras (Tudalennau 19 – 22)
Yn y llyfryn ceir data ar gyfer wyth gwahanol fenter fferm. Mae elw bras yn cymharu incwm gyda chostau uniongyrchol cynhyrchu. Mae angen cryn ofal wrth ddefnyddio elw bras gan nad yw costau anuniongyrchol (sefydlog) y cynhyrchu yn cael eu hystyried.

3. Data Costau Cynhyrchu (Tudalennau 23 – 24)
Yn y llyfryn ceir costau cynhyrchu ar gyfer pedwar allbwn amaethyddol. Ystyrir cyfanswm cost cynhyrchu fesul uned. Trwy ystyried y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol (a ddyfernir fesul uned da byw) mae cynhyrchwr mewn gwell lle i ystyried pa mor gystadleuol ac effeithiol yw'r fenter.

DIFFINIADAU O DERMINOLEG A NODIADAU EGLURHAOL

Hectarau effeithiol (Eff. Ha.)	Golyga arwynebedd y fferm gyfan ar ôl tynnu arwynebedd ffyrdd, coetiroedd, tir diffaith ac adeiladau ac ar ôl ystyried porfa bras yn ôl ei arwynebedd cyfwerth o dir pori da.
Cynllun y Taliad Sengl	Disodlwyd holl gymorthdaliadau a oedd yn gyswllt â chynhyrchiant gyda Chynllun y Taliad Sengl fel rhan o ailstrwythuro'r polisi amaethyddol cyffredin (CAP).

Mathau o Ffermydd

Mynydd	Yn yr Ardal Dan Anfantais Fawr yn bennaf.
Ucheldir	Yn yr Ardal Dan Anfantais yn bennaf.
Llawr Gwlad	Y tu allan i'r Ardal Llai Ffafriol yn bennaf.

Data Fferm Gyfan

Penderfynu data fferm gyfan	Dynodir y cynhyrchwyr uchaf yn ôl elw ar ôl rhent a chyllid fesul hectar effeithiol.
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	Cymorthdaliadau na gafwyd eu dadgyplu e.e. cynllun Organig, Tir Gofal a Glastir.
Costau cnydau eraill	Yn cynnwys holl gostau porthiant a chnydau eraill e.e. hadau, chwystrellion, lapio a chortyn ond nid gwrtaith a chontractio.
Contractio penodedig	Contractio y gellir ei gysylltu â mentrau penodedig e.e. combeinio, cneifio a gwasgaru slyri.
Costau fferm cyffredinol	Yn cynnwys trydan, ffôn, trwyddedau, yswiriant, ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau.
Incwm amrywiol	Yn cynnwys contractio,rhent bythynod, taliadau fforddfraint ac unrhyw incwm amrywiol arall. Yn cynnwys elw o unrhyw fentrau arall sydd ddim yn arddangos.
Cyfran o'r fferm a berchnogir	Gwerth Net wedi ei fynegi fel canran o'r asedau cyfan.
Cyfradd Stocio (glu/adj.forage ha)	Unedau pori da byw fesul hectar o dir porthiant wedi'i gymhwyso.
Unedau Da Byw (LU) ac Unedau Pori Da Byw (GLU)	Cyfnewidir niferoedd da byw yn unedau da byw ar sail amcangyfrif o anghenion egni, er mwyn cyfrifo cyfanswm stocio'r da byw sy'n pori ar y fferm.
Buchod godro – allbwn arall	Allbwn net o werthu / brynu gwartheg a lloi. Hefyd yn cynnwys newid mewn gwerth.

Llafur taledig	Cyfanswm y llafur a dalwyd yn cynnwys llafur achlysurol, rhan amser a llawn amser.
Llafur di-dâl (heb gynnwys ffermwr a'i briod)	Llafur di-dâl neu lafur a dderbynnir am daliad sydd yn llai na'r hyn a delir fel arfer am y gwasanaeth. Ni chaiff llafur di-dâl ei gynnwys yn yr elw ar ôl rhent a chyllid.
Costau tir	Yn cynnwys costau'n berthnasol i atgyweirio adeiladau ac adnoddau tir e.e. gwrychoedd, ffensio, walio, ffosydd a chlwydi. Hefyd yn cynnwys costau dŵr.
Cyllid	Yn cynnwys costau banc, taliadau llog ac unrhyw log prydlesu / hur-bryniant. Dim yn cynnwys ad-daliadau cyfalaf.
Data Elw Bras	Y pen ar sail y fuches / ddiadell. Dangosir i'r mentrau penodol drwy dynnu'r costau uniongyrchol (amrywiol) o'r allbwn perthnasol.
Costau da byw eraill	Prynu deunyddiau megis gwellt, comisiwn gwerthu a chostau penodol eraill y mentrau da byw.
Porthiant a chostau porthiant	Yn cynnwys costau eraill i borthiant, gwrtaith contractio porthiant a chostau tir pori tymhorol.
Data Costau Cynhyrchu	Cyfririr drwy rannu'r costau amrywiol a sefydlog gyda'r cilogram o gig (mewn pwysau byw) neu litr o laeth a gynhyrchir. Penodi'r y costau sefydlog ar unedau pori da byw ar ôl i'r cyfran o unrhyw dir âr a / neu incwm amrywiol gael ei ddiddynnu. Yn drefnedig drwy elw net.
Adnewyddu buches/diadell	Newid yng ngwerth da byw magu, wedi ystyried gwerthiant anifeiliaid a phryniant anifeiliaid magu.
Pŵer a pheiriannau	Yn cynnwys atgyweirio peirianwaith, tanwydd, contractio arall a dibrisio peiriannau.
Adeiladau	Costau tir a dibrisiad adeiladau.
Elw net	Allbwn ar ôl cyfanswm costau / mewnbwn i fentrau penodol.

FFERMYDD MYNYDD GWARTHEG A DEFAID **2014/15**

DATA FFERM GYFAN Nifer o ffermydd : 121

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	43,585	361	397
Defaid	43,978	364	468
Cnydau a phorthiant	3,134	26	40
Taliad Sengl	26,364	218	238
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	5,749	48	62
Incwm amrywiol	6,906	57	87
CYFANSWM ALLBYNNAU	**129,716**	**1,074**	**1,292**
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	20,220	167	154
Costau tir pori tymhorol	5,936	49	40
Milfeddygol a meddyginiaethau	5,101	42	44
Costau da byw eraill	8,434	70	71
Gwrteithiau	8,995	74	77
Costau cnydau eraill	2,194	18	22
Contractio penodedig	4,567	38	39
CYF. COSTAU NEWIDIOL	**55,447**	**458**	**447**
Llafur y telir amdano	4,511	37	35
Contractio arall a llogi peiriannau	793	7	6
Tanwydd a thrwsio	11,789	98	101
Dibrisiant peiriannau	13,250	110	106
Costau ffermio cyffredinol	10,098	84	90
Costau tir	4,447	37	40
Dibrisiant adeiladau	3,598	30	25
CYF. COSTAU SEFYDLOG	**48,486**	**403**	**403**
CYFANSWM MEWNBYNNAU	**103,933**	**861**	**850**
ELW CYN RHENT A CHYLLID	**25,783**	**213**	**442**
Rhent	2,744	23	29
Cyllid	4,001	33	30
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	**19,038**	**157**	**383**
Llafur di-dâl	7,049	58	78

FFERMYDD MYNYDD GWARTHEG A DEFAID **2014/15**

MANTOLEN	**Wedi'i pherchnogi £/fferm**	**Tenant £/fferm**	**Cymysg £/fferm**
Nifer o ffermydd	62	8	51
CYFANSWM ASEDAU	1,142,382	261,511	1,120,838
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	106,250	59,954	105,932
GWERTH NET	**1,036,132**	**201,557**	**1,014,906**
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	91	77	91

DATA FFISEGOL	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
ARWYNEBEDD TIR	**Hectarau**	**Hectarau**
Glaswelltir a chnydau phorthiant	108.00	101.14
Ydau a chnydau eraill	1.28	1.93
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	37.49	36.16
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	**146.77**	**139.23**
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	**120.78**	**111.19**

DA BYW	**Pob fferm nifer**	**Traean uchaf nifer**
Buchod sugno	42	40
Gwartheg eraill	92	84
Defaid magu	588	583
Defaid eraill	402	415

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.22	1.33
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	0.78	1.09
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	69.62	72.25
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.88	0.92
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,144	1,218
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	877	983
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.05	1.10

FFERMYDD MYNYDD DEFAID **2014/15**

DATA FFERM GYFAN Nifer o ffermydd : 116

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	11,832	80	90
Defaid	54,868	370	398
Cnydau a phorthiant	1,170	8	10
Taliad Sengl	25,428	171	177
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	11,275	76	123
Incwm amrywiol	5,759	39	47
CYFANSWM ALLBYNNAU	**110,332**	**744**	**845**
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	14,583	98	83
Costau tir pori tymhorol	5,479	37	34
Milfeddygol a meddyginiaethau	4,108	28	27
Costau da byw eraill	5,876	40	40
Gwrteithiau	5,747	39	38
Costau cnydau eraill	1,381	9	9
Contractio penodedig	3,453	23	23
CYF. COSTAU NEWIDIOL	**40,627**	**274**	**254**
Llafur y telir amdano	3,906	26	21
Contractio arall a llogi peiriannau	964	6	7
Tanwydd a thrwsio	9,791	66	68
Dibrisiant peiriannau	10,512	71	68
Costau ffermio cyffredinol	9,164	62	58
Costau tir	3,997	27	23
Dibrisiant adeiladau	2,405	16	13
CYF. COSTAU SEFYDLOG	**40,739**	**274**	**258**
CYFANSWM MEWNBYNNAU	**81,366**	**548**	**512**
ELW CYN RHENT A CHYLLID	**28,966**	**196**	**333**
Rhent	2,746	19	18
Cyllid	2,827	19	17
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	**23,393**	**158**	**298**
Llafur di-dâl	4,301	29	39

MANTOLEN	**Wedi'i pherchnogi £/fferm**	**Tenant £/fferm**	**Cymysg £/fferm**
Nifer o ffermydd	65	9	42
CYFANSWM ASEDAU	1,131,595	186,861	823,826
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	71,164	63,345	75,870
GWERTH NET	**1,060,431**	**123,516**	**747,956**
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	94	66	91

DATA FFISEGOL	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
ARWYNEBEDD TIR	**Hectarau**	**Hectarau**
Glaswelltir a chnydau phorthiant	124.01	125.59
Ydau a chnydau eraill	0.53	0.65
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	87.12	119.95
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	**211.66**	**246.19**
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	**148.33**	**158.02**

DA BYW	**Pob fferm nifer**	**Traean uchaf nifer**
Buchod sugno	12	15
Gwartheg eraill	26	30
Defaid magu	901	997
Defaid eraill	589	598

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.14	1.15
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	0.72	0.70
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	65.77	64.77
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.91	0.89
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,199	1,198
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	859	836
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	0.68	0.71

FFERMYDD UCHELDIR GWARTHEG A DEFAID **2014/15**

DATA FFERM GYFAN Nifer o ffermydd : 94

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	38,020	373	467
Defaid	38,213	375	455
Cnydau a phorthiant	5,735	56	54
Taliad Sengl	20,407	200	231
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	3,112	31	41
Incwm amrywiol	6,899	68	88
CYFANSWM ALLBYNNAU	**112,386**	**1,103**	**1,336**
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	14,219	140	161
Costau tir pori tymhorol	2,787	27	30
Milfeddygol a meddyginiaethau	3,842	38	37
Costau da byw eraill	7,083	70	77
Gwrteithiau	8,110	80	83
Costau cnydau eraill	2,407	24	23
Contractio penodedig	4,184	41	37
CYF. COSTAU NEWIDIOL	**42,632**	**420**	**448**
Llafur y telir amdano	3,329	33	31
Contractio arall a llogi peiriannau	902	9	9
Tanwydd a thrwsio	9,438	93	92
Dibrisiant peiriannau	11,921	117	103
Costau ffermio cyffredinol	8,923	88	82
Costau tir	4,946	49	53
Dibrisiant adeiladau	2,970	29	26
CYF. COSTAU SEFYDLOG	**42,429**	**418**	**396**
CYFANSWM MEWNBYNNAU	**85,061**	**838**	**844**
ELW CYN RHENT A CHYLLID	**27,325**	**265**	**492**
Rhent	3,502	34	31
Cyllid	2,525	25	20
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	**21,298**	**206**	**441**
Llafur di-dâl	4,426	43	67

FFERMYDD UCHELDIR GWARTHEG A DEFAID **2014/15**

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
MANTOLEN	**£/fferm**	**£/fferm**	**£/fferm**
Nifer o ffermydd	50	6	38
CYFANSWM ASEDAU	903,269	137,981	1,027,234
CYF. DYLEDION ALLANOL	58,957	4,696	92,903
GWERTH NET	**844,312**	**133,285**	**934,331**
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	93	97	91

DATA FFISEGOL	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
ARWYNEBEDD TIR	**Hectarau**	**Hectarau**
Glaswelltir a chnydau phorthiant	95.08	117.96
Ydau a chnydau eraill	2.75	3.76
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	10.77	11.77
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	**108.60**	**133.49**
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	**101.88**	**125.49**

	Pob fferm	**Traean uchaf**
DA BYW	**nifer**	**nifer**
Buchod sugno	30	33
Gwartheg eraill	83	124
Defaid magu	433	567
Defaid eraill	295	389

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.43	1.54
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	1.07	1.20
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	78.54	84.30
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.89	0.96
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,214	1,219
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	874	973
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.12	1.22

FFERMYDD LLAWR GWLAD GWARTHEG A DEFAID **2014/15**

DATA FFERM GYFAN Nifer o ffermydd : 60

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	36,219	459	650
Defaid	34,597	438	608
Cnydau a phorthiant	8,739	111	134
Taliad Sengl	17,565	222	260
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	2,028	26	19
Incwm amrywiol	6,159	78	161
CYFANSWM ALLBYNNAU	**105,307**	**1,334**	**1,832**
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	13,488	171	181
Costau tir pori tymhorol	2,347	30	58
Milfeddygol a meddyginiaethau	3,081	39	40
Costau da byw eraill	6,540	83	107
Gwrteithiau	6,555	83	105
Costau cnydau eraill	3,048	39	50
Contractio penodedig	3,676	47	53
CYF. COSTAU NEWIDIOL	**38,735**	**492**	**594**
Llafur y telir amdano	2,163	27	48
Contractio arall a llogi peiriannau	888	11	8
Tanwydd a thrwsio	9,422	119	151
Dibrisiant peiriannau	9,715	123	137
Costau ffermio cyffredinol	9,410	119	131
Costau tir	3,595	46	43
Dibrisiant adeiladau	3,030	38	67
CYF. COSTAU SEFYDLOG	**38,223**	**483**	**585**
CYFANSWM MEWNBYNNAU	**76,958**	**975**	**1,179**
ELW CYN RHENT A CHYLLID	**28,349**	**359**	**653**
Rhent	4,724	60	33
Cyllid	2,469	31	38
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	**21,156**	**268**	**582**
Llafur di-dâl	4,823	61	102

FFERMYDD LLAWR GWLAD GWARTHEG A DEFAID **2014/15**

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
MANTOLEN	**£/fferm**	**£/fferm**	**£/fferm**
Nifer o ffermydd	26	9	25
CYFANSWM ASEDAU	829,587	164,755	987,217
CYF. DYLEDION ALLANOL	43,399	15,149	92,440
GWERTH NET	**786,188**	**149,606**	**894,777**
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	95	91	91

DATA FFISEGOL	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
ARWYNEBEDD TIR	**Hectarau**	**Hectarau**
Glaswelltir a chnydau phorthiant	70.17	62.01
Ydau a chnydau eraill	5.14	5.02
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	8.46	6.27
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	**83.77**	**73.30**
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	**78.96**	**69.12**

	Pob fferm	**Traean uchaf**
DA BYW	**nifer**	**nifer**
Buchod sugno	18	15
Gwartheg eraill	85	99
Defaid magu	340	350
Defaid eraill	287	317

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.44	1.41
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	1.22	1.29
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	79.49	85.12
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.91	0.91
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,229	1,268
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	816	832
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.33	1.50

FFERMYDD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL **2014/15**

DATA FFERM GYFAN Nifer o ffermydd : 69

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Buchod godro - llaeth	278,255	2,925	4,444
- allbwn arall	-4,619	-49	-39
Gwartheg eraill	40,801	429	515
Defaid	13,798	145	109
Cnydau a phorthiant	4,541	48	42
Taliad Sengl	21,569	227	331
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	1,124	12	11
Incwm amrywiol	8,173	86	242
CYFANSWM ALLBYNNAU	**363,642**	**3,823**	**5,655**
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	92,655	974	1,328
Costau tir pori tymhorol	15,476	163	170
Milfeddygol a meddyginiaethau	11,240	118	147
Costau da byw eraill	24,207	254	311
Gwrteithiau	19,880	209	263
Costau cnydau eraill	5,868	62	70
Contractio penodedig	16,691	175	217
CYF. COSTAU NEWIDIOL	**186,017**	**1,955**	**2,506**
Llafur y telir amdano	13,197	139	209
Contractio arall a llogi peiriannau	4,059	43	40
Tanwydd a thrwsio	19,964	210	265
Dibrisiant peiriannau	19,709	207	299
Costau ffermio cyffredinol	19,758	208	264
Costau tir	9,316	98	146
Dibrisiant adeiladau	12,171	128	145
CYF. COSTAU SEFYDLOG	**98,174**	**1,033**	**1,368**
CYFANSWM MEWNBYNNAU	**284,191**	**2,988**	**3,874**
ELW CYN RHENT A CHYLLID	**79,451**	**835**	**1,781**
Rhent	5,890	62	76
Cyllid	10,381	109	73
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	**63,180**	**664**	**1,632**
Llafur di-dâl	11,112	117	168

MANTOLEN	**Wedi'i pherchnogi £/fferm**	**Tenant £/fferm**	**Cymysg £/fferm**
Nifer o ffermydd	35	2	32
CYFANSWM ASEDAU	1,430,711	-	1,153,862
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	262,978	-	366,626
GWERTH NET	**1,167,733**	-	**787,236**
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	82	-	68

DATA FFISEGOL	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
ARWYNEBEDD TIR	**Hectarau**	**Hectarau**
Glaswelltir a chnydau phorthiant	91.45	65.18
Ydau a chnydau eraill	1.09	0.33
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	10.29	8.14
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	**102.83**	**73.65**
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	**95.12**	**67.37**

DA BYW	**Pob fferm nifer**	**Traean uchaf nifer**
Buchod godro	137	139
Buchod sugno	1	0
Gwartheg eraill	115	90
Defaid magu	192	89
Defaid eraill	102	52

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	6,823	7,154
Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch)	1,466	1,627
Gwerthiant llaeth (£ y fuwch)	2,008	2,128
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	29.85	30.11
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.97	2.22

FFERMYDD GODRO LLAWR GWLAD **2014/15**

DATA FFERM GYFAN Nifer o ffermydd : 56

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Buchod godro - llaeth	370,487	3,259	4,783
- allbwn arall	-5,618	-49	31
Gwartheg eraill	53,594	472	509
Defaid	4,890	43	13
Cnydau a phorthiant	7,619	67	58
Taliad Sengl	28,162	248	295
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	2,486	22	35
Incwm amrywiol	5,974	53	105
CYFANSWM ALLBYNNAU	**467,594**	**4,115**	**5,829**
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	113,924	1,002	1,344
Costau tir pori tymhorol	10,208	90	155
Milfeddygol a meddyginiaethau	14,167	125	154
Costau da byw eraill	30,817	271	325
Gwrteithiau	22,255	196	289
Costau cnydau eraill	8,270	73	64
Contractio penodedig	22,226	196	236
CYF. COSTAU NEWIDIOL	**221,867**	**1,953**	**2,567**
Llafur y telir amdano	27,025	238	267
Contractio arall a llogi peiriannau	3,361	30	36
Tanwydd a thrwsio	24,406	215	233
Dibrisiant peiriannau	24,152	212	273
Costau ffermio cyffredinol	26,363	232	268
Costau tir	13,511	119	168
Dibrisiant adeiladau	12,931	114	168
CYF. COSTAU SEFYDLOG	**131,749**	**1,160**	**1,413**
CYFANSWM MEWNBYNNAU	**353,616**	**3,113**	**3,980**
ELW CYN RHENT A CHYLLID	**113,978**	**1,002**	**1,849**
Rhent	7,327	64	12
Cyllid	11,041	97	108
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	**95,610**	**841**	**1,729**
Llafur di-dâl	11,446	101	130

MANTOLEN	**Wedi'i pherchnogi £/fferm**	**Tenant £/fferm**	**Cymysg £/fferm**
Nifer o ffermydd	27	5	24
CYFANSWM ASEDAU	1,934,761	288,240	1,529,005
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	269,574	35,827	340,821
GWERTH NET	**1,665,187**	**252,413**	**1,188,184**
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	86	88	78

DATA FFISEGOL	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
ARWYNEBEDD TIR	**Hectarau**	**Hectarau**
Glaswelltir a chnydau phorthiant	108.20	88.56
Ydau a chnydau eraill	4.75	2.18
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	7.15	9.85
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	**120.10**	**100.59**
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	**113.66**	**92.02**

DA BYW	**Pob fferm nifer**	**Traean uchaf nifer**
Buchod godro	167	194
Buchod sugno	0	0
Gwartheg eraill	142	129
Defaid magu	77	36
Defaid eraill	37	12

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	**Pob fferm**	**Traean uchaf**
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	7,379	7,468
Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch)	1,598	1,686
Gwerthiant llaeth (£ y fuwch)	2,188	2,251
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	29.99	30.36
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	2.04	2.44

ELW BRAS: DEFAID MYNYDD		2014/15
	Pob diadell	Traean uchaf
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	214	71
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	651	573
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.18	1.40
ALLBWN Y FENTER	**£ y ddafad**	**£ y ddafad**
Gwerthiant ŵyn - stôr	3.81	1.90
- wedi'u pesgi	56.96	84.67
Gwerthiant defaid eraill	15.66	21.16
Gwerthiant gwlân	2.11	2.55
Amrywiol	0.00	0.00
Newid mewn gwerth	2.37	3.14
Pryniant defaid	-8.08	-12.12
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**72.83**	**101.30**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	15.07	17.82
Costau tir pori tymhorol	3.13	1.88
Milfeddygol a meddyginiaethau	4.64	5.31
Costau da byw eraill	5.88	7.24
Contractio penodedig	1.12	1.27
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	12.20	14.25
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**42.04**	**47.77**
ELW BRAS	**30.79**	**53.53**

ELW BRAS: DEFAID UCHELDIR		
	Pob diadell	Traean uchaf
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	71	24
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	473	521
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.44	1.64
ALLBWN Y FENTER	**£ y ddafad**	**£ y ddafad**
Gwerthiant ŵyn - stôr	4.14	2.08
- wedi'u pesgi	91.10	122.25
Gwerthiant defaid eraill	16.68	20.74
Gwerthiant gwlân	2.52	2.64
Amrywiol	0.00	0.00
Newid mewn gwerth	4.87	8.55
Pryniant defaid	-16.34	-25.90
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**102.97**	**130.36**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	17.32	18.12
Costau tir pori tymhorol	1.02	0.99
Milfeddygol a meddyginiaethau	5.73	6.00
Costau da byw eraill	7.72	8.49
Contractio penodedig	1.36	1.68
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	16.76	13.00
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**49.91**	**48.28**
ELW BRAS	**53.06**	**82.08**

ELW BRAS: DEFAID LLAWR GWLAD		2014/15
	Pob diadell	Traean uchaf
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	37	12
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	331	282
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.46	1.57
ALLBWN Y FENTER	**£ y ddafad**	**£ y ddafad**
Gwerthiant ŵyn - stôr	0.42	0.00
- wedi'u pesgi	106.03	123.20
Gwerthiant defaid eraill	16.73	20.40
Gwerthiant gwlân	2.70	2.71
Amrywiol	0.00	0.00
Newid mewn gwerth	1.70	0.19
Pryniant defaid	-18.26	-20.80
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**109.32**	**125.70**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	20.02	9.64
Costau tir pori tymhorol	1.51	0.00
Milfeddygol a meddyginiaethau	7.01	5.90
Costau da byw eraill	8.83	7.32
Contractio penodedig	1.01	0.82
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	16.45	14.64
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**54.83**	**38.32**
ELW BRAS	**54.49**	**87.38**

ELW BRAS: BUCHOD SUGNO LLAWR GWLAD		
	Pob buches	Traean uchaf
Nifer o fuchesi yn y sampl	23	8
Maint y fuches (buchod magu)	37	32
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.91	0.89
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,135	1,154
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	840	1,070
ALLBWN Y FENTER	**£ y fuwch**	**£ y fuwch**
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	310.41	302.24
Gwerthiant teirw a buchod	68.65	136.39
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	698.83	935.10
Newid mewn gwerth	-30.04	-145.29
Pryniant gwartheg	-117.99	-79.09
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**929.86**	**1,149.35**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	137.19	103.43
Milfeddygol a meddyginiaethau	37.09	20.00
Costau da byw eraill	99.33	95.10
Contractio penodedig	2.16	0.19
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	237.12	236.03
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**512.89**	**454.75**
ELW BRAS	**416.97**	**694.60**

ELW BRAS: BUCHOD SUGNO UCHELDIR		2014/15
	Pob buches	Traean uchaf
Nifer o fuchesi yn y sampl	45	15
Maint y fuches (buchod magu)	48	57
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.86	0.86
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,179	1,167
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	867	898
ALLBWN Y FENTER	**£ y fuwch**	**£ y fuwch**
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	587.32	411.65
Gwerthiant teirw a buchod	90.95	90.68
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	296.30	516.06
Newid mewn gwerth	16.36	95.09
Pryniant gwartheg	-163.08	-125.93
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**827.85**	**987.55**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	144.19	132.95
Milfeddygol a meddyginiaethau	38.51	29.83
Costau da byw eraill	78.14	73.60
Contractio penodedig	6.22	5.52
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	183.90	189.02
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**450.96**	**430.92**
ELW BRAS	**376.89**	**556.63**

ELW BRAS: BUCHOD SUGNO MYNYDD		
	Pob buches	Traean uchaf
Nifer o fuchesi yn y sampl	127	42
Maint y fuches (buchod magu)	35	30
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.90	0.93
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,162	1,162
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	900	981
ALLBWN Y FENTER	**£ y fuwch**	**£ y fuwch**
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	695.56	697.70
Gwerthiant teirw a buchod	115.72	75.07
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	246.20	383.58
Newid mewn gwerth	-7.82	14.09
Pryniant gwartheg	-185.28	-148.26
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**864.38**	**1,022.18**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	199.27	138.05
Milfeddygol a meddyginiaethau	47.54	40.17
Costau da byw eraill	86.96	77.60
Contractio penodedig	5.54	4.82
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	180.98	151.67
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**520.29**	**412.31**
ELW BRAS	**344.09**	**609.87**

ELW BRAS: BUCHOD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL

	2014/15	
	Pob buches	**Traean uchaf**
Nifer o fuchesi yn y sampl	68	23
Maint y fuches (buchod godro)	135	144
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	6,761	7,532
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	30.05	31.09
ALLBWN Y FENTER	**£ y fuwch**	**£ y fuwch**
Llaeth	2,031.97	2,340.87
Lloi	109.65	121.24
Gwerthiant teirw a buchod	137.86	173.43
Newid mewn gwerth	44.67	46.23
Pryniant gwartheg	-327.22	-349.51
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**1,996.93**	**2,332.26**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	568.15	566.52
Milfeddygol a meddyginiaethau	64.34	72.04
Costau da byw eraill	138.47	126.89
Contractio penodedig	25.19	15.19
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	206.70	240.09
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**1,002.85**	**1,020.73**
ELW BRAS	**994.08**	**1,311.53**

ELW BRAS: BUCHOD GODRO LLAWR GWLAD

	Pob buches	**Traean uchaf**
Nifer o fuchesi yn y sampl	54	18
Maint y fuches (buchod godro)	171	146
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	7,378	8,302
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	30.01	30.64
ALLBWN Y FENTER	**£ y fuwch**	**£ y fuwch**
Llaeth	2,213.99	2,543.98
Lloi	98.27	115.05
Gwerthiant teirw a buchod	126.34	163.97
Newid mewn gwerth	46.76	61.37
Pryniant gwartheg	-306.83	-333.98
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	**2,178.53**	**2,550.39**
COSTAU NEWIDIOL		
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	606.55	640.96
Milfeddygol a meddyginiaethau	74.20	82.05
Costau da byw eraill	158.46	152.58
Contractio penodedig	33.19	31.44
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	202.93	180.25
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**1,075.33**	**1,087.28**
ELW BRAS	**1,103.20**	**1,463.11**

COSTAU CYNHYRCHU CIG OEN 2014/15

Ceiniogau y kg pwysau byw	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	123	41	41
Bwyd	38.84	30.88	48.29
Milfeddygol a meddyginiaethau	10.59	8.28	11.59
Costau da byw eraill	16.41	15.55	17.09
Porthiant	25.86	19.97	31.33
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**91.70**	**74.68**	**108.30**
ADNEWYDDU DIADELL	**13.19**	**8.84**	**20.41**
Llafur y telir amdano	4.60	2.64	6.97
Pŵer a pheiriannau	40.47	31.83	50.57
Adeiladau	11.45	8.64	15.13
Costau fferm cyffredinol	17.80	13.71	21.73
Rhent	5.04	3.58	6.40
Cyllid	5.60	3.25	7.66
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	**84.96**	**63.65**	**108.46**
CYFANSWM COSTAU	**189.85**	**147.17**	**237.17**
ELW NET	**-2.42**	**47.49**	**-56.31**
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.36	1.46	1.27
Maint y ddiadell	618	516	744
Cyfartaledd oen pwysau byw (kg)	39.90	41.45	38.54

COSTAU CYNHYRCHU LLAETH

Ceiniogau y litr	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	122	41	41
Bwyd	7.92	6.98	9.29
Milfeddygol a meddyginiaethau	0.95	0.82	1.10
Costau da byw eraill	2.55	2.08	3.11
Porthiant	2.81	2.32	3.17
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**14.23**	**12.20**	**16.67**
ADNEWYDDU BUCHES	**1.99**	**1.14**	**2.62**
Llafur y telir amdano	0.89	0.54	1.30
Pŵer a pheiriannau	2.96	2.70	3.30
Adeiladau	1.32	1.15	1.64
Costau fferm cyffredinol	1.53	1.33	1.79
Rhent	0.37	0.25	0.48
Cyllid	0.58	0.21	1.05
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	**7.65**	**6.18**	**9.56**
CYFANSWM COSTAU	**23.87**	**19.52**	**28.85**
ELW NET	**7.46**	**12.52**	**1.87**
Mantais dros ddwysfwyd	22.09	23.52	20.27
Pris llaeth	29.71	30.20	29.13

COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION : LLOI SUGNO 2014/15

Ceiniogau y kg pwysau byw	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	65	22	22
Bwyd	15.97	7.30	27.91
Milfeddygol a meddyginiaethau	10.34	8.60	13.85
Costau da byw eraill	15.31	12.09	18.30
Porthiant	43.91	40.10	46.01
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**85.53**	**68.09**	**106.07**
ADNEWYDDU BUCHES	**13.61**	**4.43**	**17.18**
Llafur y telir amdano	7.08	3.91	13.47
Pŵer a pheiriannau	70.95	55.13	90.80
Adeiladau	20.28	13.71	29.32
Costau fferm cyffredinol	30.90	25.45	37.88
Rhent	6.43	4.51	6.75
Cyllid	7.74	7.19	10.31
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	**143.38**	**109.90**	**188.53**
CYFANSWM COSTAU	**242.52**	**182.42**	**311.78**
ELW NET	**-70.08**	**0.53**	**-148.28**

Mae cynhyrchu lloi sugno yn cyfeirio at gostau buchod sugno a'u lloi hyd at adeg diddyfnu.

COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: PESGI

Ceiniogau y kg pwysau byw	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	30	10	10
Bwyd	56.17	30.12	95.61
Milfeddygol a meddyginiaethau	5.64	4.35	8.00
Costau da byw eraill	26.81	28.41	29.16
Porthiant	45.12	40.26	55.75
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	**133.74**	**103.14**	**188.52**
Llafur y telir amdano	8.85	2.52	9.13
Pŵer a pheiriannau	55.85	57.33	61.91
Adeiladau	14.47	11.50	20.81
Costau fferm cyffredinol	23.69	25.28	23.20
Rhent	8.28	10.17	10.66
Cyllid	5.84	6.47	6.21
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	**116.98**	**113.27**	**131.92**
CYFANSWM COSTAU	**250.72**	**216.41**	**320.44**
ELW NET	**-30.76**	**40.21**	**-99.56**

Mentrau pesgi yw'r rai hynny sy'n prynu gwartheg cryfion ag ifanc, a'r rhai sy'n pesgi lloi fagwyd ar y fferm ar ôl diddyfnu.

Anghenion Elw Fferm

Mae'n rhaid cael elw er mwyn ariannu:
Codi arian personol o'r busnes,
Ad-dalu benthyciadau (cyfalaf),
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf,
Treth bersonol, a
Risg a gwobrwyo ymdrech entrepreneuraidd

Mae'r cyfrifiad canlynol yn helpu i benderfynu a oes elw digonol i sicrhau digon o adnoddau ariannol:

Elw fel y dangosir yn y cyfrifon

Plws: Costau dibrisiant am y flwyddyn
Stoc gychwynnol (da byw a storfeydd eraill)
Dyledwyr cychwynnol a chredydwyr terfynol
Benthyciadau / HP wedi'u codi a chyfalaf a gyflwynwyd
Gwerthu tir a pheiriannau

Tynnu : Stoc derfynol (da byw a storfeydd eraill)
Dyledwyr terfynol a chredydwyr cychwynnol
Cynnyrch wedi'i ddefnyddio/bwyta ar y fferm

Hafal i : Arian i dalu am ymrwymiadau

Tynnu : Codi arian personol o'r busnes
Ad-daliadau benthyciadau / HP (cyfalaf)
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf
Treth bersonol

Hafal i : Llif Arian Net Blynyddol (LIANB)

Yn ddelfrydol dylai'r LIANB fod yn bositif gan amlaf (i'w weld fel gwelliant ym malans banc / dyledion y fferm). Yr eitemau sydd yn dylanwadu fwyaf ar y tebygolrwydd y bydd y llif arian net yn bositif yw:

Maint yr elw
Lefel y codi arian personol
Gwariant cyfalaf
Ad-dalu benthyciadau / HP

Gall LIANB negyddol (h.y. proffidioldeb fferm annigonol ac/neu alw mawr ar arian parod) effeithio'n sylweddol ar hyfywdra y busnes yn y tymor hir.